Cywain

Tyfu busnes trwy gydweithio
Growing business through collaboration

menter a busnes

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

COVID-19

[Nodyn 1-13 Mawrth 2020] [Note 1 - 13th March 2020]

Mae Menter a Busnes yn monitro'r sefyllfa'n ymwneud â'r Coronafeirws (COVID-19) yn barhaus, ynghyd â'r effaith ar gynhyrchwyr bwyd a diod o Gymru. Rydym ni wedi siarad gyda'r prif adwerthwyr, ac nid yw'r mwyafrif ohonynt yn cynnal cyfarfodydd wyneb i wyneb ar hyn o bryd ac maent wedi canslo unrhyw deithio nad yw'n hanfodol.

Gweler isod:

- Crynodeb o'r gefnogaeth, cyngor a chanllawiau allanol sydd ar gael i ddiogelu eich busnes yn ystod achosion Coronafeirws gan gynnwys
    - Cynllunio'n gyffredinol
    - Rheoli Pobl a materion AD
    - Gweithio o gartref
    - Cyllid a chanfod cefnogaeth ariannol
    - Cwestiynau Cyffredin
    - Crynodeb o'r hyn y dylid ei ystyried / goblygiadau ar gyfer eich busnes

[CEFNOGAETH ALLANOL - YMA]

[PARHÂD BUSNES - YMA]

Er mwyn cefnogi busnesau, bydd Cywain yn lansio'r **Cynllun Cefnogi Cynaliadwyedd Busnes** yr wythnos nesaf er mwyn hybu sefydlogrwydd a chynaliadwyedd busnesau o ganlyniad i'r amgylchedd masnachol anodd a achoswyd gan y Coronafeirws (COVID-19). Bydd rhagor o fanylion yn cael eu hanfon atoch yr wythnos nesaf.

Cyngor - os oes angen unrhyw gyngor arnoch mewn meysydd megis AD neu gyllid, cysylltwch â ni.

Cyfarfodydd ar-lein - os oes angen unrhyw gyngor neu gefnogaeth arnoch er mwyn cynnal cyfarfodydd dros y we, gallwn gynnig cymorth.

Byddwn ni'n cyhoeddi gwybodaeth a chyfarwyddyd pellach pan fydd ar gael, ond mae croeso i chi gysylltu â'ch Rheolwr Datblygu Cywain neu eich Rheolwr Clwstwr os oes angen unrhyw wybodaeth neu gyngor, neu gallwch e-bostio cywain@menterabusnes.co.uk

Gweler hefyd wybodaeth ar wefan Bwyd a Diod Cymru yma

Alun Jones
Prif Weithredwr / Chief Executive
Menter a Busnes